ATODLEN 2

Addasiadau pan roddir cyfarwyddyd diogelwch gwladol

**Datganiadau tystiolaeth ysgrifenedig**

**13.** Mae rheoliad 44 i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ar ôl paragraff (1), y canlynol wedi ei fewnosod—

"(1A) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo'r datganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(1B) Pan fo'r datganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig—

(a) rhaid i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad sy'n bwriadu rhoi tystiolaeth, neu'n bwriadu galw person arall i roi tystiolaeth, yn yr ymchwiliad drwy ddarllen datganiad ysgrifenedig, anfon at Weinidogion Cymru—

(i) un copi o'r datganiad ysgrifenedig gan gynnwys y dystiolaeth gaeedig, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig;

(ii) un copi o'r datganiad ysgrifenedig heb gynnwys y dystiolaeth gaeedig ("y datganiad agored"), ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig;

(b) rhaid i'r apelydd anfon un copi o'r datganiad agored, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig, i'r awdurdod cynllunio lleol;

(c) rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon un copi o'r datganiad agored, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig, at yr apelydd.";

(b) ar ôl paragraff (2), y canlynol wedi ei fewnosod—

"(2A) Nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo'r datganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(2B) Pan fo'r datganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael—

(a) anfon copi o ddatganiad agored pob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad, ynghyd ag unrhyw grynodeb, i'r awdurdod cynllunio lleol; a

(b) anfon copi o bob datganiad agored, ynghyd ag unrhyw grynodeb, at bob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad."